# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 12 Chwefror 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Derbyn Cleifion i Ysbytai (Gwent)

**C8 David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y sefyllfa o ran derbyn cleifion i ysbytai yn ardal Gwent? (OAQ22440)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Fel sy'n digwydd yn aml ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mae'r ysbytai yng Ngwent o dan bwysau sylweddol oherwydd lefelau uchel o dderbyniadau. Dechreuodd meddyg argyfwng newydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent ym mis Ionawr, ac mae uned asesu achosion brys yn agor ym mis Medi, ynghyd ag apwyntiad ail feddyg.

### Band Eang yn y GIG yng Nghymru

**C9 Delyth Evans:** Beth yw'r sefyllfa o ran cyflwyno band eang yn y GIG yng Nghymru? (OAQ22342)

**Jane Hutt:** Mae cyflwyno rhwydwaith technoleg band eang yn rhan sylfaenol o strategaeth delathrebu 2000 y GIG yng Nghymru. Mae rhaglen allfudiad ar waith ers Ebrill 2001 i weithredu'r strategaeth hon ac i gyflwyno rhwydweithio band eang i rwydweithiau'r GIG yng Nghymru.

O fis Medi 2001 ymlaen, disodlwyd data craidd rhwydwaith y GIG yng Nghymru yn llwyr gan dechnoleg band eang, ac ym mis Mai 2002, ymgorfforodd holl ymddiriedolaethau y GIG yng Nghymru yr un dechnoleg band eang i'w rhwydweithiau lleol hwythau yn llwyddiannus.

Law yn llaw â hynny, bu rhaglen arall yn delio â moderneiddio pob technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn practisiau meddygon teulu. Fel rhan o'r fenter hon, darperir pob practis meddyg teulu yng Nghymru gyda chysylltiad band eang i'r gwasanaeth rhwydwaith corfforaethol newydd. Hyd yn hyn, mae 75 y cant o bractisiau meddygon teulu wedi'u cysylltu iddo.

### Gwasanaethau Deintyddol

**C10 Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella gwasanaethau deintyddol, o gofio bod 46 y cant o boblogaeth dalgylch Awdurdod Iechyd Bro Taf heb eu cofrestru gyda deintydd y GIG? (OAQ22344)

**Jane Hutt:** O ganlyniad uniongyrchol i'r cymhelliannau a gynigiwyd drwy gam 3 menter deintyddol Cymru, a gyhoeddwyd fis Mawrth diwethaf, agorwyd practisiau GIG newydd neu estynedig ym Merthyr Tudful a Threorci, a chyrhaeddwyd cytundeb mewn egwyddor i estyn practis yn y Tyllgoed, Caerdydd.

Yn ychwanegol, rhoddwyd £224,000 i Awdurdod Iechyd Bro Taf dros ddwy flynedd i brynu sesiynau mynediad ychwanegol i'r cleifion hynny nad ydynt yn gallu, neu nad ydynt yn fodlon, cofrestru â deintydd GIG am ofal parhaus.

*Tynnwyd cwestiwn 11 (OAQ22340) yn ôl.*

### Rhestrau Aros y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**C12 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar restrau aros y gwasanaeth iechyd gwladol? (OAQ22430)

**Jane Hutt:** Ers cyhoeddi'r strategaeth amseroedd aros, gwanethpwyd buddsoddiad sylweddol i leihau amseroedd aros a moderneiddio'r ffordd y'u rheolir a sut y darperir gwasanaethau. Gwelsom welliannau yn ein hardaloedd meysydd targed blaenoriaeth dros y chwarter diweddaraf, gyda gostyngiadau yn:

- y nifer o gleifion sy'n aros dros 18 mis am driniaeth orthopedig a thros bedwar mis am lawdriniaeth ar gataractau;

- llawdriniaethau ar y galon, lle mae'r gwasanaeth wedi cyrraedd a chadw at y targed pwysig lle nad oes unrhyw glaf yn aros mwy na 12 mis, ac sydd yn symud tuag at sicrhau, o ddiwedd mis Mawrth 2003 ymlaen, na fydd rhaid i unrhyw glaf aros mwy na chwe mis am eu harchwiliad angiograffeg;

- y nifer o bobl sy'n aros dros 18 mis am driniaeth orthopedig. Mae hyn wedi gostwng 1,700 yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae bron pob ymddiriedolaeth yng Nghymru, gan gynnwys Gwent, wedi cyrraedd y targed o sicrhau na fydd unrhyw un yn aros mwy na 18 mis am driniaeth cleifion mewnol neu achos dydd erbyn diwedd Gorffennaf 2002, ac maent yn parhau i weithio'n galed i gynnal y sefyllfa hon.

### Gwasanaethau Iechyd yn Abertawe

**C13 Peter Black:** Faint yn ychwanegol o gyfalaf sydd wedi'i fuddsoddi yn y gwasanaethau iechyd yn Abertawe ers Medi 2000? (OAQ22452)

**Jane Hutt:** Er 2000, bu gwariant o fewn ardal Ymddiriedolaeth GIG Abertawe (o flwyddyn i flwyddyn) yn £5,370 miliwn (2000-01), £13,873 miliwn (2001-02) £24,803 miliwn (2002-03 hyd yn hyn) sy'n gwneud cyfanswm o £44,046 miliwn. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys cyllid Cymru gyfan, cronfeydd a grëwyd yn fewnol, cynlluniau eraill a chyfalaf dewisol.

### Gwasanaethau Orthopedig yng Ngwent

**C14 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adroddiad yr Athro Brian Edwards ar y gwasanaethau orthopedig yng Ngwent? (OAQ22449)

**Jane Hutt:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiwn Kirsty Williams (OAQ22461) ar 12 Chwefror:

Nododd yr adolygiad rai themâu pwysig sy'n berthnasol i Gymru gyfan. Trafodir argymhellion yr adroddiad gan fy swyddogion a chymuned iechyd Gwent. Byddaf yn cyhoeddi'r ffordd ymlaen ar 26 Chwefror yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ22458) yn ôl.*

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Adeiladau Ysgolion

**C5 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hynt y gwaith i sicrhau y bydd holl adeiladau ysgolion yn addas i bwrpas erbyn 2010? (OAQ22421) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Fe'ch cyfeiriaf at y datganiad a wneuthum yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Chwefror.

*Atebwyd cwestiwn 6 (OAQ22372) gyda chwestiwn 1 (OAQ22373) yn y Cyfarfod Llawn.*

### Ffederasiynau Ysgol

**C7 Kirsty Williams:** A all y Gweinidog ddweud faint o ffederasiynau ysgol sydd wedi'u sefydlu ers rhoi grant arbennig rhif 6 ar waith? (OAQ22467)

**Jane Davidson:** Dim un ers 30 Ebrill 2002, pan y cymeradwywyd grant arbenning rhif. 6. Mae ffederasiwn yn gyffredinol yn golygu newid un neu ddwy ysgol i un ysgol ffederal o dan un prifathro ac un corff llywodraethu, sy'n gweithredu ar safleoedd rhai o'r ysgolion, neu bob ysgol y mae'n cymryd eu lle. Mae ad-drefnu o'r fath yn gofyn am weithredu statudol, sy'n cynnwys ymgynghori lleol lawn ac yn cymryd tua blwyddyn i'w cwblhau. Mae cylchlythyr canllawiau 23/02 yn nodi'n glir y dylid ystyried ffederasiwn fel opsiwn bob amser yng ngoleuni amgylchiadau lleol.

### Myfyrwyr o Gymunedau dan Anfantais

**C8 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o fyfyrwyr o gymunedau dan anfantais sy'n cael eu recriwtio i addysg uwch yng Nghymru? (OAQ22371)

**Jane Davidson:** Mae ehangu mynediad yn flaenoriaeth allweddol yn 'Ymgeisio yn Uwch', ac mae sefydliadau Cymreig yn arwain y ffordd yn y maes hwn. Yn 2000-01, yr oedd 15 y cant o fyfyrwyr ifanc llawn amser newydd i sefydliadau addysg uwch Cymreig o gymdogaethau cyfranogiad isel, o'i gymharu â 12.5 y cant ar gyfer y DU. Disgwyliaf i sefydliadau adeiladu ar hynny ac yr wyf yn falch bod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi dyrannu'r £2 miliwn ychwanegol ar gyfer ehangu mynediad i bedwar partneriaeth ar draws Cymru.

### Peilot Llanelli—y Dref sy'n Dysgu

**C9 Delyth Evans:** A all y Gweinidog roi'r manylion diweddaraf am y cynllun peilot Llanelli—y Dref sy'n Dysgu? (OAQ22362)

**Jane Davidson:** Pwrpas y cynllun peilot hwn yw asesu i ba raddau y mae darpariaeth dysgu am ddim yn cynyddu'r galw am hyfforddiant ac yn gwella lefelau sgiliau a chymwysterau ymhlith pobl mewn cyflogaeth. Cafodd y prosiect groeso brwd yn yr ardal ers ei lansio fis Medi diwethaf ac mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn disgwyl i 800 o weithwyr ymrwymo i ddysgu erbyn diwedd mis Mawrth.

### Cynorthwywyr yn yr Ystafell Ddosbarth

**C10 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynlluniau i hyfforddi mwy o gynorthwywyr yn yr ystafell ddosbarth er mwyn gwella amodau gwasanaeth athrawon yng Nghymru? (OAQ22377)

**Jane Davidson:** Bydd mwy o gefnogaeth i athrawon yn y dosbarth yn rhan bwysig o gyflawni newidiadau cytundebol i leihau baich gwaith athrawon. Bydd angen i'r gefnogaeth honno fod yn briodol ac yn gymwys. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ym myd addysg i ddatblygu'r ffordd ymlaen yng Nghymru ac, yn benodol, i adeiladu ar sgiliau staff cynorthwyol presennol.

## Siopau Ffrwythau mewn Ysgolion

**C11 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hynt y cynlluniau sy'n mynd rhagddynt i sefydlu siopau ffrwythau yn yr ysgolion? (OAQ22468)

**Jane Davidson:** Sefydlwyd 272 siop ffrwythau mewn ysgolion sy'n rhan o gynlluniau ysgolion iach lleol, ar sylfaen adfer cost. Darparwyd deunyddiau atodol i annog cyfranogaeth bellach ac fe'u dosberthir drwy rwydweithiau lleol.

## Athrawon sy'n Rhannu Swyddi

**C12 Mick Bates:** Faint o athrawon sy'n rhannu swyddi yng Nghymru? (OAQ22469)

**Jane Davidson:** Ni chedwir gwybodaeth ar nifer y swyddi dysgu a rennir yn ganolog. Fodd bynnag, hoffwn weld ysgolion yn magu agwedd bositif tuag at rannu swyddi. Mae'n galluogi mwy o bobl i barhau i weithio yn y proffesiwn nag a fyddai fel arall yn bosibl, ac y mae o fudd yn yr ystafell ddosbarth.

## Polisi Ariannu Myfyrwyr

**C13 Peter Black:** Pa adnoddau ychwanegol y mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd yn eu cael oddi wrth Lywodraeth y DU yn ystod y tair blynedd nesaf i gyllido polisi Llywodraeth y Cynulliad ar ariannu myfyrwyr? (OAQ22427)

**Jane Davidson:** Y mae fy swyddogion yn trafod gyda'u cydweithwyr yn Whitehall y cynigion ar gyfer addysg uwch a amlinellodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau yn ei Bapur Gwyn ar 22 Ionawr, a goblygiadau datganoli cyfrifoldeb dros gymorth i fyfyrwyr i'r Cynulliad. Ni allaf amlinellu'r goblygiadau ariannol hynny'n glir hyd nes y daw'r trafodaethau i ben.

## 'Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 2002'

**C14 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sy'n dilyn cyrsiau addysg a hyfforddiant, yn ôl y tueddiadau sy'n cael eu nodi yn 'Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 2002'? (OAQ22386)

**Jane Davidson:** Arhosodd niferoedd y sawl rhwng 16 i 18 oed a oedd yn derbyn addysg ac hyfforddiant yn gyffredinol gyson yn ystod blynyddoedd academaidd 1999-2000 a 2000-01. Dengys ffigurau'r cyfnod hwn bod tua 75 y cant o'r grŵp oedran dan sylw yn derbyn addysg neu hyfforddiant a gefnogwyd gan y Llywodraeth. Yn ogystal, mae'n galonogol nodi y bu cynnydd bychan yn ystod y cyfnod hwn yn niferoedd y sawl a oedd yn derbyn addysg amser llawn.

## Ariannu Sefydliadau Addysg Uwch

**C15 Phil Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth ariannol a fydd yn cael ei roi i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn y dyfodol? (OAQ22381)

**Jane Davidson:** Amlinellwyd cynlluniau cyllido'r Llywodraeth am y tair blynedd nesaf yn y gyllideb a gyhoeddwyd ar 15 Hydref 2002. Mae'r cynlluniau hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol o ran buddsoddiadau mewn addysg uwch, gyda chynnydd o 20 y cant dros y tair blynedd.